

CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIwyd NOS FERCHER
2 Mawrth 2016, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL YN Y CYFARFOF MISOL:		
Cyng D I Roberts, N Jones, E Williams, R Davies, A W Mummery (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)		
YMDDIHEURIADAU:		
Cyng R Edwards, A Evans, G Roberts, S Hughes		
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D I Roberts.	
2	DATGAN DIDDORDEB – Cyng R Davies (cais cynllunio Artwood, Star)	
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 3 Chwefror 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.	
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION	
4.1	Lon Garnedd Isaf - mewn llaw	
4.2	Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon - mewn llaw - mae Cyng J Evans yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir	
4.3	Gwrychoedd ar y ffordd i Ceint - Darllenwyd ebost gan yr Adran Priffyrdd yn dweud "yr ydym wedi bod allan i arolygu ger "Y Glyn" a chadarnhaf nad oes perygl yn y lleoliad yma ar hyn o bryd" Cytunwyd i gae'r mater	
4.4	Gor-yrru Penmynydd - Mae'r Clerc wedi derbyn adroddiadau gor-yrru 2011, 2013 a 2014 a bydd yn gofyn am adroddiad 2015.	
4.5	Cyflwr y coed ar tir y tai elusendai a dyfodol yr eglwys - mewn llaw (disgwyl am adroddiad gan Cyng R Edwards)	
4.6	Lamp stryd (Tai Cyngor Penmynydd) - mae'r Clerc yn disgwyl am pris gan y Cyngor Sir	
5	Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon	
	Cynllunio	
5.1	Cais llawn i godi annedd ynghyd a chreu mynedfa newydd i geir ar dir ger Artwood, Star - dim sylwadau (Trafodwyd y mater ar y diwedd ar ôl i Cyng R Davies gadael y cyfarfod)	
5.2	Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon - dim sylwadau	
	Refeniw a Budd Daliadau	
5.3	Ymgynghoriad y Dreth Gyngor - dim sylwadau	
	Pennaeth Gwasanaethau Democraidd	
5.4	Ymgynghoriad ar Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr - Bydd y Clerc yn ymateb i'r ymgynghoriad: Yn gyntaf, mae ymateb y Cyngor Sir i'r angen i ddarparu safleoedd wedi bod yn rhy araf o'r hanner ac mae gofyn i'r cyhoedd roddi ystyriaeth lawn a gofalus mewn byr amser i'r holl oblygiadau yn afresymol. Credwn y dylai'r Cyngor gysylltu gyda Llywodraeth Cymru, disgyn ar eu bai a chyfaddef fod camgymeriadau wedi eu gwneud yn y gorffennol a gofyn am estyniad rhesymol i fynd ati eto i gynllunio gyda thudalen lan gan roddi amser haeddiannol i drafod yr holl oblygiadau cyllid, cymdeithasol ac ymarferol.	
	Llofnod	Cadeirydd 06.04.16

	<p>Mae Cyngor Penmynydd yn gwrthwynebu y cynnig lleoedd yn Ne yr Ynys fel ag y mae y Cyngor yn ei awgrymu ar hyn o bryd.</p> <p>'Rydym hefyd yn cwestiynu'r system sgorio a ddefnyddir ar gyfer y safleoedd arfaethedig.</p> <p>Mae'r Cyngor hefyd yn bwysleisio fod hwn yn benderfyniad llawer iawn yn rhy bwysig, a'r goblygiadau tymor hir yn rhy dyrus, i fwrw ymlaen a'r cynigion fel y mae nhw ar hyn o bryd. Fel Cyngor, rydym yn ymwybodol iawn fod yna wrthwynebiad ffyrnig i'r cynigion presenol a bod pawb o'r plwyfolion sydd wedi cysylltu a ni yn mynegi'r un farn</p> <p>Ar gyfer pob un o'r safleoedd arfaethedig, mae angen rhoi ystyriaeth i'r canlynol:</p> <p>Lleoliad y safleoedd, Rheoli y Safleoedd, Addarwydd y ffyrdd a mynediad, Ardaloedd chwarae i blant, Goleuadau cyhoeddus, Dwr a charffosiaeth, Casglu gwastraff ac ailgylchu, Lleoliad ysgolion, Mynediad i wasanaethau iechyd, Mynediad i wasanaethau brys a gweithwyr post, Diogelwch y safle, Rheoli anifeiliaid ac anifeiliaid anwes, Cyfleusterau toiled a chawod, Parcio, Gwasanaethau allgymorth</p>
	Priffyrdd
5.5	Ceint - gweler 4.3
6	Gohebiaeth Ychwanegol
6.1	Mr S Griffiths, Artwood, Star - Darllenwyd llythyr oddi wrth Mr Griffiths yn gofyn am fanylion cyswllt ar gyfer cynghorwyr i'w rhoi ar ein gwefan. Cytunwyd y dylid cysylltu trwy'r cler
6.2	Gan Bwyll - gweler 4.4
7	MATERION ARIANNOL
	Penderfyniwyd talu:
7.1	Costau y Clerc £27.96
7.2	Ceisiadau ariannol - cytunwyd i dalu un cais yn unig - Eisteddfod Genedlaethol Môn 2017 £400.
8	MATERION ERAILL
	Dim
	Llofnod
	Cadeirydd
	06.04.16